LC191

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Lleoedd Tân Esempt) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae adran 20 o Ddeddf Awyr Lân 1993 yn gwahardd gollwng mwg o simnai unrhyw adeilad mewn ardal rheoli mwg.

O dan adran 21 o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad eithrio unrhyw ddosbarth o le tân, drwy orchymyn, o dan unrhyw amodau a bennir, o ddarpariaethau adran 20.

Mae'r Gorchymyn presennol yn darparu ar gyfer esemptiad i ddau le tân, sy'n llosgi coed, sy'n cael eu gweithgynhyrchu gan gwmnïau penodol.

Cafodd Gorchymyn i'r un perwyl ei wneud ar gyfer Lloegr ar 14 Chwefror 2001 a daw hwnnw i rym ar 14 Mawrth (OS 2001 Rhif 422).

### Rheol Sefydlog 11.5

Mae'r Gorchymyn fel y'i gosodwyd gerbron y Cynulliad yn ddiffygiol, yn gymaint â bod y dyddiad y daw i rym wedi'i hepgor o'r pennawd ac o Erthygl 1(1). Bydd modd cywiro'r diffyg hwn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Gan hynny, os caiff y cywiriad ei wneud, naill ai drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau neu fel arall, ni fydd unrhyw faterion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

Er hynny, os na chaiff y diffyg ei gywiro, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau yr hoffai'r Gweinidog priodol eu cyflwyno yn unol â Rheol Sefydlog 11.4, fe fydd hyn yn fater y bydd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae ambell fater arall y credir y dylent gael eu cywiro yn fersiwn brintiedig y Gorchymyn.

- Dylai troednodyn (a) yn y Rhaglith nodi drwy ba fodd y cafodd y swyddogaeth ei breinio yn y Cynulliad.
- Dylid cael nodyn ochr yn yr Atodlen i gyfeirio at Erthygl 2.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Mawrth 2001